



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

NORTH WALES SOCIAL CARE AND WELL-BEING
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

Nodiadau Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

7 Awst 2020

1:00 yp to 2:40 yp

Trwy Skype

Yn bresennol:	Teresa Owen (cadeirydd), Bethan Jones Edwards, Alwyn Jones, Cyng. Joan Lowe (JLo), Estelle Hitchon, Jennie Lewis (JLe), Jenny Williams, John Gladston, John Gallanders, Paul Scott yn bresennol yn lle Kevin Roberts, Cyng. Llinos Medi Huws, Mary Wimbury (MWim), Neil Ayling, Nicola Stubbins, Peter Williams, Rob Smith, Helen Corcoran Ymddiheuriadau: Add names here
Ymddiheuriadau:	Morwena Edwards, Chris Stockport, Cyng. Louise Emery, Fon Roberts, Bethan E Jones, Kevin Roberts, Clare Budden, Ffion Johnstone, Shan Lloyd Williams, Cyng. Christine Jones, Cyng. Dafydd Meurig, Cyng. Bobby Feeley, Lynda Colwell, Judith Greenhalgh, Mark Wilkinson, Catherine Elaine Jones, Lucy Reid, Roma Hooper

1 Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Estynnodd y cadeirydd groeso cynnes i bawb a nodwyd yr ymddiheuriadau fel uchod.

2 Cofnodion a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf

Derbyniwyd nodiadau'r cyfarfod ar 10.7.2020 fel cofnod cywir.

Camau gweithredu:

- LS/BJE i drafod y Strategaeth Dementia gyda JGa – trefnwyd ar gyfer 13.8.2020. Roedd BJE hefyd wedi e-bostio JGa ond ni chafwyd ymateb hyd yma.
- Anfon yr adroddiad cyflwyno i'w gymryd trwy brosesau llywodraethu a democrataidd yr ALI a BIPBC - hysbysodd BJE y bydd yr adroddiad cyflwyno ar gael unwaith y bydd y Strategaeth Dementia wedi'i diweddarau a'i hadolygu yn unol â Covid ac y bydd y sylwadau a wnaed yn y cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol diwethaf wedi cael eu hystyried.

- Adroddiad Ffocws a Blaenoriaethau - ni chafwyd adborth pellach. BJE i adolygu a bydd y ddogfen derfynol yn cael ei chyflwyno i Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ym mis Medi i'w chymeradwyo.
- Rhannu cyswllt ag RG - wedi'i gwblhau
- Rhannu cyswllt â'r NC - wedi'i gwblhau
- Dogfen ar ddigartrefedd ar raglen mis Gorffennaf - wedi'i gohirio tan gyfarfod y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol mis Medi oherwydd gwyliau y sawl a oedd i'w chyflwyno.

Camau gweithredu eto i'w cyflawni:

- Profi mewn Cartrefi Gofal - TO i drafod gyda MWim

Soniodd TO am oedi gyda'r adroddiad Cartrefi Gofal. Gwelwyd gwelliannau o fewn profion ledled Cymru.

Cytunodd MWim fod y sefyllfa wedi gwella ar y cyfan, gyda phrofion ar gyfer yr holl Gartrefi Gofal yn symud drosodd i'r porth ar 10.8.2020. Fodd bynnag, wedi synnu bod hyn wedi digwydd heddiw. Mae Cartrefi Gofal sydd eisoes yn defnyddio'r porth yn adrodd am brofiad cadarnhaol, gyda Chartrefi Gofal eraill yn dewis peidio â defnyddio'r porth oherwydd gofynion amser staff. Codwyd cwestiwn pam ei bod yn briodol profi staff ac nid nyrsys ardal?

Cynghorodd TO fod profi staff cartrefi gofal yn newid i fod bob pythefnos ar draws y rhan fwyaf o Gymru, ond mae'n parhau i fod bob wythnos ar draws Gogledd Cymru am y tro.

Adroddodd JGa am broblem gyda'r porth prawf gov.uk yr wythnos diwethaf a achosodd drallod mewn cartrefi gan arwain at staff yn mynd i'r canolfannau profi cymunedol. O ganlyniad, ni ddangosodd y canlyniadau ar y porth lleol, gan achosi i ddata fod ar goll.

Ychwanegodd MWim fod staff sy'n defnyddio'r safleoedd profi cymunedol hefyd yn peri risg posib o haint.

Cyfieithu ar y Pryd

Dywedodd BJE fod gwasanaethau cyfieithu ar y pryd ar blatfform rhithwir gwahanol yn parhau i gael eu harchwilio gan wasanaethau TG CSDd. Cysylltwyd ag IACC sydd ar hyn o bryd yn defnyddio platfform rhithwir MS Teams a chyfieithu ar yr un pryd gyda'i gilydd. Mae'r system hon yn cynnwys mynychwyr yn cysylltu â'r cyfarfod trwy'r we trwy liniaduron, llechi ac ati ac mae gwahoddiad arall, a gylchredir gan y cyfieithydd, yn cysylltu'r aelodau hynny sydd angen gwasanaethau cyfieithu trwy eu ffonau. Rydym yn ymwybodol bod rhai aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn parhau i gael trafferth cysylltu â'r cyfarfodydd trwy skype a defnyddio'r opsiwn ffôn. Byddai angen i'r cyfieithwyr hefyd gael

trwyddedau MS Teams i'w galluogi i wneud hyn. Mae'r gwaith hwn yn dal i fynd rhagddo.

Camau Gweithredu

- Adroddiad Ffocws a Blaenoriaethau – Rhaglen mis Medi - RW
- Dogfen ar ddigartrefedd ar raglen mis Gorffennaf – rhaglen mis Medi - RW

3 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 - Codau a Chanllawiau wedi'u diweddarau: Rhan 9 Canllawiau Statudol (Trefniadau Partneriaeth) – Bethan Jones Edwards

Esboniodd BJE, o ystyried y newidiadau yng Nghodau a Chanllawiau Statudol Rhan 9, bod adborth a gafwyd gan aelodau wedi'i gynnwys ar y sleidiau yn y pecyn. Felly dylai aelodau BPRGC gytuno ar ddatrysiad mewn perthynas â'r canlynol:

- Gofynion aelodaeth ychwanegol Vs maint y Bwrdd a chadw aelodaeth yn hylaw,
- Aelodau cyfetholedig - a yw'n dal yn briodol cael aelodau cyfetholedig? Ar hyn o bryd nid oes unrhyw dymor penodol ar gyfer aelodau cyfetholedig - a ddylai fod yn unol â seddi eraill?

TO, er ei bod yn ymwybodol o fod yn aelod cyfetholedig o'r BPR, nid yw'r Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus o reidrwydd yn gynrychiolydd BIPBC. Mae'r aelodau i ystyried yr opsiynau sydd ar gael h.y.

1. Lle mae'r Canllawiau yn nodi o leiaf un, dim ond un sedd ddylai fod ar gael drwyddi draw?
2. A ddylem ni barhau i fod ag aelodaeth gyfetholedig?
3. Yn hytrach nag aelodaeth gyfetholedig, dylid gwahodd aelodaeth ychwanegol ar gyfer eitemau o ddiddordeb penodol ar y rhaglen / lle mae angen mewnbwn - nid ar gyfer pob cyfarfod
4. Aliniad y tymor ar gyfer seddi e.e. 2 flynedd (ar gyfer y rhai sy'n cynrychioli sectorau h.y. wedi'u recriwtio trwy wahoddiad neu ddatgan diddordeb)

HC (wedi'i gyfethol o HGC)

Gall cael tymor wynebu ychydig o broblemau. Mae'r rôl yn ymwneud â chael y person iawn o'r sefydliad a all gysylltu â'r gwasanaethau amrywiol yn HGC.

Sut mae penderfyniad yn cael ei wneud pryd y dylid/ na ddylid gwahodd aelodau cyfetholedig ar gyfer eitemau penodol ar y rhaglen? Mae gwahanol rannau o'r rhaglen yn aml yn cysylltu ag aelodau cyfetholedig busnes, sydd wedi'u henwi

eisoes a gall trafodaethau pellach ddarparu cysylltiadau newydd i'w lledaenu o fewn sefydliadau.

EH (wedi'i gyfethol o YGAC)

O safbwynt YGAC mae EH yn gweld aelodaeth yn werthfawr, fodd bynnag, mae'n gwerthfawrogi'r her sy'n wynebu rhanbarth mor fawr o'i chymharu â BPR eraill yng Nghymru. Yr her i bawb yw effeithiolrwydd y bwrdd yn hytrach na'r maint.

Nododd EH bryder hefyd gydag aelodau cyfetholedig a wahoddwyd am eitemau penodol ar y rhaglen, byddai angen rhybudd ymlaen llaw ac efallai na fyddai'r bwrdd yn sylweddoli bod angen aelodau cyfetholedig nes nad ydyn nhw yn yr ystafell, gan gredu gallai grŵp ehangach gyfoethogi trafodaethau.

Lleisiodd y Cynghorydd LLM ei phryder mewn perthynas â chael un aelod etholedig ar yr BPR, a chododd bryder y byddai'r llais democrataidd ar draws y rhanbarth yn cael ei golli, ac y byddai'n her i un aelod etholedig gynrychioli'r holl aelodau etholedig yn y rhanbarth.

Paul Scott yn dirprwyo ar ran KR (cyfetholedig o GTAGC)

Mae GTAGC o'r farn y dylai aelodau cyfetholedig fod yn ôl yr angen. Fodd bynnag, byddai hyn yn heriol o ran sicrhau nad yw sefydliadau yn cael eu colli a'u hanghofio.

Roedd JGal yn credu mai un o'r materion allweddol i gynrychiolwyr yw'r amserlen weithredol ar gyfer papurau cyfarfod. Gan sylweddoli bod yna nifer o resymau, mae'n dod yn amhosibl ceisio barn sefydliadau arbenigol y Trydydd Sector am sylwadau. Heb gael y cyfle hwn mae Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn gynrychiolydd o'r Trydydd Sector yn hytrach na chynrychiolydd y Trydydd Sector.

Hysbysodd BJE fod cydnabyddiaeth yn y Canllawiau Rhan 9 diwygiedig, na ellir disgwyl i gynrychiolwyr Trydydd Sector, Dinasyddion a Gofalwyr gynrychioli pawb yn eu sefydliad / sectorau.

Nododd NS fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod yn aelod gofynnol o'r BPR ers dechrau'r Bwrdd. Mae gwaith y BPR wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'n teimlo bod y Bwrdd wedi symud i ffwrdd o'i 'bwrpas gwreiddiol i integreiddio I a G C. Mae NS yn cytuno nad yw bod yn effeithiol yn gysylltiedig â maint, ond mae'n ystyried bod maint y bwrdd presennol yn ei atal rhag bod yn effeithiol, o bosibl yn dod yn Fwrdd trafod yn hytrach nag yn Fwrdd gweithredu. Mae Cymru Iachach hefyd wedi dod â disgwyliadau gwahanol ar gyfer y BPR, ac er bod LIC a Cymru Iachach wedi ehangu cwrpas y BPR, mater i'r bwrdd yw penderfynu ar waith y bwrdd h.y. canolbwyntio ar nifer llai o ffrydiau gwaith yn dda iawn neu lawer o waith-ffrydiau cystal â phosib.

Nododd RS fod canllaw Rhan 9 yn nodi mai dim ond un aelodaeth sy'n ofynnol gan BIPBC, ac roedd o'r farn na fyddai un person yn gallu cynrychioli'r holl wasanaethau ar lefel gorfforaethol ar draws BIPBC.

Cododd NS bryder hefyd ynghylch dirprwyon ar gyfer aelodau cyfetholedig, sydd wedi creu heriau o ran peidio bod â digon o wybodaeth am y gwaith i allu cyfrannu at drafodaethau a phenderfyniadau, er, nid yw hyn wedi bod yn broblem yn ddiweddar. Ffordd ymlaen a awgrymir yw'r aelod cyfetholedig a enwir i fod yn bresennol yn unig.

Cytunodd y Cynghorydd LIM â sylwadau NS, dylid gwahodd aelodau cyfetholedig i drafodaethau penodol a chynrychiolwyr enwebedig i fynychu oherwydd salwch. Ac eithrio hyn, y person sydd wedi'i enwi i fod yn bresennol yn ôl yr angen yn unig, ac awgrymodd dreialu hyn am gyfnod.

Mae NS yn ymwybodol o'r niferoedd, a chyda'r LCC Tai y cytunwyd arnynt wedi'i ostwng i un, a chynyddu cynrychiolwyr tai ALI, mae'r BPRGC yn aros yr un maint.

Gofynnodd EH, pe bai aelodau cyfetholedig yn cael eu gwahodd fel yr oedd eu hangen, bod yr holl aelodau cyfetholedig yn parhau i gael eu cynnwys mewn trafodaethau ehangach. Fodd bynnag, byddai'n well cadw aelodau cyfetholedig ond bod yn glir iawn ynglŷn â chanolbwyntio ar wneud penderfyniadau.

Awgrymodd JGla y dylid cadw HGC, ICC a YGAC fel partneriaid allweddol, gydag aelodau cyfetholedig eraill yn cael eu gwahodd yn ôl yr angen.

Cynigiodd y cadeirydd 2 opsiwn:

- Cadw a pharhau gyda'r aelodau cyfredol, diwygio'r aelodau cyfetholedig i unigolion a enwir yn unig, nid dirprwyon
- Treialu cyfarfodydd heb aelodau cyfetholedig

Yn dilyn trafodaeth eang, roedd yr aelodau'n cytuno i TO a BJE barhau trafodaethau ar yr opsiynau uchod y tu allan i BPR gydag aelodau Cyfetholedig, ac i gyflwyno papur i'r BPR fis Medi.

- Aelodaeth ychwanegol - pa broses yr ydym am ei chymryd i ddewis / penodi / gwahodd yr aelodau ychwanegol?

Cynrychiolydd LCC - yn dilyn trafodaeth roedd aelodau'r BPR yn cytuno i ostwng y LCC i 1 cynrychiolydd. Nododd TO fod yn ddiolchgar am barodrydd CB a SLW i awgrymu'r dull hwn.

Cynrychiolydd Tai ALI - Roedd y Cynghorydd LLM o'r farn y dylai Prif Weithredwyr Gogledd Cymru wneud y penderfyniad i benodi aelodaeth ychwanegol, a chynigiodd BJE i drafod y gofyniad hwn gyda'r Prif Weithredwyr.

Cynrychiolydd Addysg yr ALI - Credai'r Cynghorydd JLo y dylai'r penderfyniad i benodi'r cynrychiolydd Addysg hefyd gael ei wneud gan Brif Weithredwyr Gogledd Cymru, gan gynnwys Arweinwyr Cynghorau, a chynigiodd BJE i drafod y gofyniad hwn gyda Phrif Weithredwyr / Arweinwyr Cynghorau.

- Beth yw'r ffordd fwyaf effeithiol y gall aelodau sicrhau eu bod yn rhannu gwybodaeth am faterion BPR i'w cymheiriaid a sicrhau eu bod yn bwydo barn ehangach yn ôl i'r BPR.

Derbynnir / gofynnir i bob aelod sy'n eistedd ar y bwrdd rannu o fewn eu sefydliadau eu hunain. Trwy gydol y flwyddyn gofynnir i bartneriaid statudol fynd â strategaethau / adroddiadau trwy eu prosesau gwleidyddol / llywodraethu eu hunain sydd wedyn yn cael eu rhannu â'u sefydliad.

Atgoffodd BJE bawb o'r wefan cydweithredu ranbarthol, sy'n darparu gwybodaeth am holl ffrydiau gwaith BPRGC yn ogystal â chofnodion o'r BPR. Mae'r holl wybodaeth yn cael ei lanlwytho ar ôl ei chyfieithu.

Nododd PW fod ei dymor fel cynrychiolydd Gofal yn gorffen ddiwedd mis Awst, a chytunodd i barhau i fynychu dros dro nes bod y broses datgan diddordeb wedi'i chwblhau a gofynnodd a oedd y pecynnau wedi'u cylchredeg.

Cytunodd PW i barhau tan fis Hydref 2020.

Hysbysodd BJE y bydd y pecyn yn cael ei gylchredeg yn fuan.

Ychwanegodd JLe mewn perthynas â chynrychiolydd datgan diddordeb Gofalwyr, yn dilyn trafodaethau â PW, byddai'n ddefnyddiol i'r datganiad o ddiddordeb gynnwys manylion pellach ynghylch y rôl, gan bwysleisio'r hyn a ddisgwylir gan gynrychiolydd y gofalwr o ran y rôl ranbarthol. Byddai JLe yn croesawu bod yn rhan o'r drafodaeth. Cadarnhaodd JLe hefyd, oherwydd ei hamgylchiadau personol, a diffyg unrhyw gefnogaeth ymarferol i'w merch yn ystod Covid, na all barhau y tu hwnt i ddiwedd y tymor, sef heddiw.

Cytunodd BJE i gysylltu â PW a JLe ac adolygu galw am rôl y gofalwr yn benodol o safbwynt cenedlaethol; gyda gwahoddiadau i fynychu ystod o gyfarfodydd sefydliadol cenedlaethol a sefydliadol arall oherwydd eu bod yn rôl Gofalwr ar y BPR.

- Sut i fodloni'r gofynion a'r disgwiliadau ychwanegol - a yw hyn yn newid y ddogfen ffocws a blaenoriaethau drafft;

Dywedodd BJE na dderbyniwyd unrhyw sylwadau pellach mewn perthynas â gofynion a disgwiliadau'r adroddiad Ffocws a Blaenoriaethau Drafft. Bydd BJE yn adlewyrchu ac yn cynnwys datganiad ar Covid a'r cam adfer a bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno yn BPR mis Medi i'w gymeradwyo.

Bydd y 3 awgrym (isod) yn cael eu gohirio tan drafodaeth mis Medi:

- Sut ydyn ni'n sicrhau bod y partner yn adrodd yn briodol ac yn rheolaidd i strwythurau gwleidyddol a / neu lywodraethu'r sefydliad; yr hyn a adroddir ac amllder; craffu ar waith y bwrdd;
- Sut mae sicrhau bod gennym yr is-grwpiau priodol fel sy'n ofynnol gan y canllawiau?
- A oes angen i'r bwrdd ystyried rôl swyddog monitro mwy ffurfiol i sicrhau ei fod yn cwrdd â'i ofynion neu a yw goruchwyliaeth gan y Swyddog Cydweithio Rhanbarthol a'r Cadeirydd yn ddigonol?

Diolchodd TO i BJE am y gwaith ar greu'r sleidiau i gynorthwyo gyda'r drafodaeth.

Camau Gweithredu

- Trefnu cyfarfod TO/BJE ac aelodau cyfetholedig – RW
- Ymestyn cyfnod cyfredol cynrychiolydd Gofalwyr i ddiwedd mis Hydref 2020 - BJE
- Myfyrio ar sylwadau JLe, o ran nodi rolau a chyfrifoldebau ar gyfer seddi cynrychiolwyr Gofalwyr - BJE
- Diwygio'r datganiad diddordeb a'i gylchredeg – BJE/RW
- 3 awgrym heb eu trafod i'w gohirio tan mis Medi – BJE/RW

4 Adroddiad diweddarau Bwrdd Gweithlu Gogledd Cymru - Jenny Williams

Rhoddodd JW ddiweddariad ar raglen waith 2019-2020 a wnaed gan BGGC trwy gydol y flwyddyn, a chydabuwyd y gwaith a gwblhawyd gan Carol Dale, Rheolwr Prosiect y Gweithlu.

Ymhlith y datblygiadau mae:

- Y Grant Hwyluso Rhanbarthol (6 cyllid grant ALI):
 - Sefydlu Grŵp Gofalwn Cymru rhanbarthol - bydd y grŵp hwn yn dylanwadu, yn hyrwyddo ac yn cyfrannu at ddatblygiad a phwrpas strategaeth genedlaethol a blaenoriaethau 'Gofal Cymdeithasol Cymru' ar gyfer yr ymgyrch recriwtio / atynnu cenedlaethol.
 - Recriwtio unigolyn yn llwyddiannus i rôl Cysylltydd Gyrfa Gofal i arwain ar gydlyn ymgyrchoedd recriwtio ledled y rhanbarth a chysylltu â chydweithwyr mewn rolau tebyg trwy'r grŵp rhanddeiliaid cenedlaethol a rhanbarthol - a ariennir am gyfnod o ddwy flynedd.
- Cais llwyddiannus i Gronfa Her yr Economi Sylfaenol LIC, i gefnogi materion recriwtio a datblygu staff ar draws I a GC, i ddarparu ymrwymiad a chefnogaeth i weithwyr Gofal Cartref a Chartrefi Gofal.

- Gweithio gyda Gofal Iechyd Gwledig Cymru i gynnal ymchwil bwrdd gwaith ar nodi modelau arfer gorau wrth ddarparu gwasanaethau Iechyd a Gofal a'r gweithrediad posibl ohonynt yng Ngogledd Cymru.
- Mae cyflwyno Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol ar lefel ranbarthol a lleol a chyflawni'r canlyniadau allweddol wedi parhau a'r cyflawniadau a wnaed yw:
 - Gwaith partneriaeth gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i wella dealltwriaeth o ofynion cofrestru, y safonau sy'n ofynnol fel y nodir yn y cod ymddygiad proffesiynol ac i osgoi dyblygu.
 - Hwyluso parhaus o'r Fforymau Rheolwyr Cofrestredig
 - Cydweithio â darparwyr Addysg a phartneriaid eraill i gefnogi gweithwyr cymdeithasol gyda datblygiad ôl-gymhwyso i gynnal a gwella safonau
- Cysylltu â'r 4 rhaglen Trawsnewid ag unrhyw dasgau y gall y bwrdd eu cyflawni.
- Datblygu proses addas i weinyddu ac asesu cymhwysedd darparu meddyginiaethau mewn cartrefi gofal

Bydd y rhaglen waith yn canolbwyntio ar y meysydd uchod gyda mewnbwn cryf gan BIPBC.

Nododd JW y risgiau:

- Effaith rheoleiddio'r gweithlu (cofrestru gweithwyr cymorth cartref a chartrefi gofal) ar recriwtio a chadw staff
- Gofynion cyllido / buddsoddiad tymor hir sy'n ofynnol ar gyfer hyfforddi a datblygu i gynnal gweithlu cynaliadwy, gan ddarparu modelau gwasanaeth newydd
- Effaith peidio â chael llwybr gyrfa cytunedig ar gadw staff

Nododd JW yn ystod wythnosau cynnar Covid, cynigiodd BGGC gefnogaeth gyda rolau anghlinigol yn y 3 ysbyty maes, ond ni fanteisiwyd ar y cynnig hwn gan na chomisiynwyd yr ysbytai maes. Hysbysodd JW y byddai'r BGGC yn parhau i fod ar gael i gynorthwyo, os yw'r ysbytai maes i gael eu comisiynu.

Hysbysodd JW mai un ffactor cadarnhaol iawn o ganlyniad i Covid fu'r gallu i gael mynediad at staff asiantaeth BIPBC ar gyfer Cartrefi Gofal. Mae'r cynllun hwn o ganlyniad i'r arweinydd AD priodol gan y ddau sefydliad.

Adroddodd NS ar drafodaeth ddiweddar gyda LIC a chyfarfod Grŵp Gweithlu BAME, ac un mater yn benodol oherwydd y pryderon sy'n weddill a'r asesiad risg yng nghymuned BAME ac effaith Covid, y gellid colli aelodau staff talentog y buddsoddwyd ar y cyd ynddynt dros y blynyddoedd. Mae hyn yn wir nid yn unig yn y gymuned BAME, ond hefyd yn aelodau staff sy'n gwarchod, sy'n methu dychwelyd i'w rolau yn dilyn asesiad risg a manteisiodd NS ar y cyfle i ofyn a allai'r BPR gymryd agwedd strategol at y mater hwn i sicrhau nad yw aelodau staff yn cael eu colli i fathau eraill o waith tan bwynt mewn amser pan fyddant yn gallu dychwelyd i'w rolau arferol yn ddiogel, a chynigiodd bod y cam gweithredu hwn yn cael ei gymryd gan BGGC.

Dywedodd MWim fod yn rhaid i lawer o leoliadau I a GC ddibynnu ar ystod eang o staff asiantaeth. Mae gan staff banc yn y maes lechyd fynediad at gyfleoedd hyfforddi, nad yw fel rheol yr un peth i staff asiantaeth. Bydd goblygiadau sylweddol i hyn a gofynnodd a fyddai BGGC yn barod i ymgymryd â hyn.

Amlygodd JGal nad yw staff asiantaeth yn aml yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y gofynion cyfredol a hefyd nad ydyn nhw'n gallu cyflawni rhai rolau mewn lleoliad iechyd.

Mae'r mater ynghylch hyfforddi staff asiantaeth wedi'i nodi ar sawl achlysur mewn arolygiadau AIC lle mae JGal wedi bod yn rhan ohono. Mae'r maes risg hwn yn uchel iawn.

Ychwanegodd MWim fod yna broblemau hefyd o ran rheoli heintiau gyda staff asiantaeth yn symud o leoliad i leoliad yn yr hinsawdd sydd ohoni, a hyd nes y bydd darparwyr yn cael eu comisiynu i gael sylfaen staff fwy, bydd yn anodd cael datrysiad.

Roedd JW yn cytuno â chynnig BAME a bydd hefyd yn ystyried materion hyfforddi staff.

Roedd y BPRGC yn cytuno i gymeradwyo'r argymhellion yn adroddiad BGGC.

1. Nodi cynnydd gyda'r rhaglen waith gyfredol
2. Nodi'r gwaith sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf
3. Cydnabod datblygiad y gofrestr risg strategol

5 Grŵp Adfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol - Judith Greenhalgh / Bethan Jones Edwards

Rhoddodd BJE ddiweddariad llafar yn absenoldeb JG.

Gwaith wedi'i gwblhau ers y diweddariad diwethaf 10.7.2020:

- Mae'r Cadeirydd wedi cysylltu â'r holl grwpiau cyflenwi a nodwyd i arwain ar y gwahanol ffrydiau gwaith, fel y cytunwyd gan y BPR, i baratoi adroddiad sylfaenol (dadansoddiad sefyllfaol)
- Mae angen adroddiadau sylfaenol o bob llif gwaith
- Bydd Adroddiad Dadansoddiad Sefyllfaol (ADS) yn cael ei lunio o'r adroddiadau sylfaenol i roi dadansoddiad gwell o'r rhaglen adfer
- Bydd adroddiad ar y gwaith adfer yn cael ei gynnwys ym mhecyn BPRGC ar gyfer mis Medi

Mae'r meysydd gwaith canlynol hefyd yn cael eu symud ymlaen:

- Mae grŵp Cell Ddata wedi'i sefydlu i goladu'r holl ddata proffesiynol lleol a rhanbarthol mewn un adroddiad, ac mae Ian Howard BIPBC yn arwain gydag enwebiadau gan bob ALI.
- Disgwylir adroddiad Senario Achos Gwaethaf Rhesymol LIC (RWCS) a fydd yn llywio'r cynlluniau adfer
- Datblygu cynllun gaeaf, gan weithio trwy'r 3 chyfarfod BGI Ardal.

Yn y cyfarfod diwethaf 6.8.2020 cyflwynodd CBSC eu hadroddiad ADS a bu trafodaeth am rai ystyriaethau ar gyfer gweithio yn y dyfodol ar draws ieched a gofal cymdeithasol:

- Digidol / TG;
- lles staff
- Defnyddiwyd grwpiau presennol i ymgymryd â rhai o'r ffrydiau gwaith - gofynnwyd i'r Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol ystyried yr Elfen Adfer Darparwyr.

Camau Gweithredu

- Dod ag adroddiad ysgrifenedig i gynnwys dadansoddiad sefyllfaol i gyfarfod nesaf BPRGC - BJE
- Cyflwyno Cynllun Gaeaf i'r BPR ar ôl ei gwblhau - BJE

6 Unrhyw Fusnes Arall

Cadeirydd Grŵp Llywio Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru (is-grŵp o'r BPR fel sy'n ofynnol yn y Cod a'r Canllawiau)

Nid oes gan y Fforwm Gwerth Cymdeithasol, is-grŵp o'r BPR gadeirydd parhaol bellach. Gofynnodd y cadeirydd a fyddai unrhyw aelodau o'r Fforwm Gwerth Cymdeithasol sydd hefyd yn aelodau o'r BPR yn ystyried cymryd cadeiryddiaeth

y Is-grŵp Fforwm Gwerth Cymdeithasol. Penderfynwyd y bydd y cadeirydd yn ysgrifennu at yr aelodau hynny yn gofyn am eu cefnogaeth i gadeirio.

Atal ac ymateb i Covid-19 yng Nghymru - Gwersi a ddysgwyd a gofyn am ddatblygu Cynlluniau Lleol - John Gallanders

Esboniodd TO y gofynnwyd i'r rhanbarth ffurfioli trefniadau cynllunio ac ymateb mewn perthynas â Covid-19 yn lleol. MWil yw'r arweinydd ar ran BIPBC. Mae dau gyfarfod wedi'u cynnal hyd yma gyda swyddogion yr Amgylchedd a'r Safonau Masnach. Mae'r llinell amser yn dynn gyda LLC angen yr adroddiad erbyn 12.8.2020. Mae hwn yn gynllun canolog ac mae'n cysylltu â gwaith y Grŵp Adfer Iechyd a Gofal. Cynigiodd TO ddiweddarau cydweithwyr ymhellach gyda thrafodaethau oddi ar-lein, os oes angen.

Roedd JG yn ddiolchgar am yr ymateb ac yn teimlo ei bod yn bwysig bod holl aelodau'r BPR yn cael eu dyfynnu ar yr adroddiad, gan gydnabod hefyd yr ymateb cyflym mae LIC eisiau.

Credai LLM mai dull effaith leol fyddai'r unig ffordd i fynd i'r afael â Covid yn gyflym, gan gredu na fyddai dull rhanbarthol o gymorth o gwbl. Mae'r dyddiad cau a roddwyd gan LIC yn ystod rhan brysuraf y flwyddyn yn ystod yr haf hefyd yn cael ei ystyried yn annheg ar bartneriaid.

Anfon y llythyr a'r wybodaeth at aelodau'r BPR a darparu diweddariadau hefyd.

Llythyr at Mark Polin - Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 - Teresa Owen / Mark Wilkinson

Llythyr oddi wrth Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru yn nodi'r canfyddiadau a'r argymhellion allweddol yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol.

Yn olaf, manteisiodd y cadeirydd ar y cyfle i ddiolch yn ddiffuant i JLe am ei chefnogaeth a'i chyfraniad i'r bwrdd dros y 2 flynedd ddiwethaf, gan mai hwn yw ei chyfarfod olaf fel cynrychiolydd Gofalwyr.

Actions

- Ysgrifennu at aelodau Fforwm Gwerth Cymdeithasol/ Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol – TO/BJE
- TO/MWil i roi diweddariad ar yr adroddiad terfynol - Atal ac ymateb i Covid-19 yng Nghymru

7 Er Gwybodaeth:

Cafodd y dogfennau canlynol eu cynnwys er gwybodaeth:

- Adroddiad ICF Swyddfa Archwilio Cymru Medi 2019 - diweddariad ar y camau gweithredu ar gyfer y BPR

- Cynllun Gweithredu ar gyfer Cartrefi Gofal
- Llythyr oddi wrth Julie James LIC

8 Dyddiad y cyfarfod nesaf

Dydd Gwener 11 Medi 2020 - 9:00 yb - 11:30 yb